**ELL 11-01(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 13 Mehefin 2001

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

***Aelodau***

| | | |
|---|---|---|
| Cynog Dafis, Cadeirydd | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Eleanor Burnham | Democratiaid Rhyddfrydol | Gogledd Cymru |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru | Canol De Cymru |
| Gareth Jones | Plaid Cymru | Conwy |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, yr Is-adran Rheoli Ysgolion (Eitem Pedwar) |
| Suzanne Chisholm | Tîm Polisi Ieuenctid (Eitem Pedwar) |
| Mandy Paish | Arweinydd y Prosiect Beichiau Biwrocrataidd, yr Is-adran Rheoli Ysgolion (Eitem Pedwar) |
| Tony Widdrington | Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol |

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Dirprwyadau**

Dim

**Datganiadau o Fuddiant**

Cynog Dafis Athro Cofrestredig

Jane Davidson Athrawes Gofrestredig

Huw Lewis Athro Cofrestredig

Lorraine Barrett Llywodraethwr Ysgol

Pauline Jarman Aelod o Lys y Llywodraethwyr, Prifysgol Caerdydd;
ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Gareth Jones Athro Cofrestredig; ac aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

- Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau am daith ymchwiliol y Pwyllgor i’r Alban a Gogledd Iwerddon rhwng dydd Sul 10 Mehefin a dydd Mawrth 12 Mehefin. Amcan y daith oedd edrych ar y systemau Addysg Uwch yn y gwledydd hynny. Dywedodd y Cadeirydd iddo fod yn ymarfer gwerthfawr i’r Pwyllgor.
- Cyhoeddodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cael cyfle i ystyried yr Adroddiad ar Gynnydd ynghylch y Cyflenwad o Leoedd Ysgolion (papur ELL 08-01(p.8) Atodiad 1) yn y cyfarfod ar 9 Mai 2001. O ganlyniad, yr oedd y Clerc yn mynd ymlaen i lunio adroddiad Terfynol a gyflwynid i’r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf ar 27 Mehefin 2001, yn barod i’w gyflwyno i’r Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2001. Hysbysodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor y byddai’r Clerc yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw

sylwadau a allai fod ganddynt ar y mater hwn.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Pwyllgor benderfynu a ddylai cam Gwerthuso cyntaf yr Adolygiad Addysg Uwch yn y cyfarfod hwn (13 Mehefin 2001), gael ei gynnal yn y dirgel neu'n gyhoeddus. Teimlwyd yn gyffredinol y byddai'n fwy priodol cael y Gwerthusiad cyntaf o'r Adolygiad yn y dirgel, gan y gallai'r Aelodau deimlo'n ochelgar yn eu trafodaeth pe byddai'n sesiwn yn un cyhoeddus. Hefyd, teimlwyd mai amhriodol fyddai cynnal y cam Gwerthuso yn gyhoeddus gan y gallai godi disgwyliadau di-sail oddi mewn i'r sector Addysg Uwch yng Nghymru. Cytunodd y Pwyllgor i gynnal pob un o'r tri cham Gwerthuso yn y dirgel. *(Yn y sesiwn caeedig yn rhan olaf y cyfarfod hwn, cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnal pob un o'r tri cham Gwerthuso yn y dirgel yn unol â'r rhesymau a grybwyllwyd uchod.)*
- Hysbysodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai arddangosiad o gyfleusterau dysgu electronig gan Brifysgol Morgannwg cyn y cyfarfod ar 27 Mehefin 2001, yn dechrau am 1.15pm. Cynghorodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'n fuddiol iddynt fod yn bresennol yng ngolwg yr adolygiad ar Addysg Uwch.

**Eitem Un: Pleidlais ar y cynnig a gynigiwyd gan Huw Lewis**

***Papur: ELL 11-01(p.1)***

1.1 Yr oedd Huw Lewis cyn hyn wedi tynnu'n ôl ei gynnig gwreiddiol, ynghylch y papur gan Dafydd Glyn Jones [ELL 09-01(p.5)], ac wedi rhoi cynnig diwygiedig yn ei le. Yr oedd y Clerc wedi derbyn gwelliant i'r cynnig hwn oddi wrth Gareth Jones.

1.2 Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i wneud sylwadau a chodwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Datganodd Huw Lewis ei fod o'r farn y dylid ystyried cyfeiriadau ychwanegol o bapur Dafydd Glyn Jones yn unol â'r cynnig a gynigiwyd ganddo. Tynnodd Huw Lewis sylw yn benodol at gynodiadau ynghylch Byddin Weriniaethol Iwerddon (paragraff 8.3, p.17) a chyfeiriad at wahardd Saeson rhag cymryd rhan yn y sector Addysg Uwch yng Nghymru (ail baragraff, p.21).

Ymatebodd Huw Lewis i welliant Gareth Jones a dywedodd, yn gyntaf, nad oedd y cynnig a gynigiwyd ganddo'n sensora neb gan fod llwyfan cenedlaethol wedi ei roi i Dafydd Glyn Jones. Ychwanegodd, mewn perthynas â rhyddid barn, bod hawl gan y Pwyllgor i anghytuno â'r defnydd o fynegiant a oedd yn peri tramgwydd iddynt ym mhapur Dafydd Glyn Jones; nid oedd y Pwyllgor ond yn datgan ei farn.

Yn ail, cyfeiriodd Huw Lewis at Reol Sefydlog 7.2 (pwynt 4 yng Nghanllawiau'r Llywydd a Gyhoeddwyd yn Unol â Rheol Sefydlog 8.17), "*Mae Rheol Sefydlog 7.2 yn gwahardd defnyddio iaith sydd, ym marn y Llywydd, yn groes i'r drefn, yn camwahaniaethu neu'n peri tramgwydd, neu'n gallu amharu ar urddas y Cynulliad*". Eglurodd Huw Lewis mai'r rhannau y tynnir sylw atynt yn y cynnig oedd y cyfeiriadau hynny yn y papur a oedd yn crybwyll '*élite* cenedlgarol' a gwahardd Saeson/siaradwyr Saesneg ar sail cenedligrwydd. Dadleuodd Huw Lewis ei fod yn cael y cyfeiriadau hyn yn rhai gwahaniaethol a thramgwyddus. Eglurodd fod Dafydd Glyn Jones wedi awgrymu bod 'gormod o fyfyrwyr nad ydynt yn Gymry' yng Nghymru. Unwaith eto, dadleuodd, pe byddai'r ymadrodd 'myfyrwyr lliw' yn cael ei roi yn lle'r ymadrodd 'myfyrwyr nad ydynt yn Gymry' y byddai pobl yn gyffredinol yn cael eu sensiteiddio i'r gwahaniaethu hwn ac y byddent yn cael yr

ymadrodd hwn yn annioddefol.

Yn olaf, ychwanegodd Huw Lewis fod dyletswydd ar Aelodau'r Pwyllgor i gadw urddas ac unplygrwydd y pwyllgor, fel y crybwyllir yn y Rheolau Sefydlog. Dywedodd Huw Lewis y byddai'n annioddefol disgwyl i Gynghorydd Arbenigol yr Adolygiad Addysg Uwch roi ei farn ar beidio â chynnwys myfyrwyr nad ydynt yn Gymry yn narpariaeth Addysg Uwch Cymru. Ategodd Huw Lewis ei sylw blaenorol ar wahaniaethu drwy bwysleisio, pe rhoddid gair 'du' yn lle'r gair/ymadrodd 'nad ydynt yn Gymry' y byddai hynny'n gwbl annerbyniol ac annioddefol. Terfynodd Huw Lewis drwy ddadlau bod y cynnig a gynigiwyd ganddo yn cefnogi'r hawl i ryddid barn ac na ddylai'r Pwyllgor oddef syniadau o wahardd rhai grwpiau mewn cymdeithas rhag y ddarpariaeth Addysg Uwch yng Nghymru.

- Ailadroddodd y Cadeirydd Reol Sefydlog 7.2 i'r Pwyllgor a gwahoddodd Gareth Jones i wneud sylw. Dywedodd Gareth Jones ei fod yn ddig bod y Pwyllgor wedi gwastraffu amser ar y mater hwn a'i fod yn dwyn anfri ar y Pwyllgor a'r Cynulliad. Dadleuodd y dylid gwrando ar leisiau Cymru. Nododd Gareth Jones fod cynnig gwreiddiol Huw Lewis yn cynnig sensora'r cyfan o bapur Dafydd Glyn Jones. Er ei fod yn cydnabod nad oedd y cynnig newydd cyn waethed â'r cynnig gwreiddiol, teimlai Gareth Jones ei fod yn annerbyniol o hyd. Hysbysodd Gareth Jones y Pwyllgor ei fod yn bryderus, pe byddai'r Pwyllgor yn dechrau datgan barn ar bapurau a gyflwynid iddo, y byddai hynny'n gosod cynsail anffodus a fyddai'n ddinistriol ac yn argoeli'n ddrwg ar gyfer y dyfodol. Dadleuodd Gareth Jones y byddai tystion a allai gyflwyno tystiolaeth anuniongred yn cael eu rhwystro rhag dod i gyflwyno tystiolaeth i Bwyllgorau os câi'r cynnig ei dderbyn. Ychwanegodd Gareth Jones nad oedd yn cytuno ag awgrym Dafydd Glyn Jones na ddylai myfyrwyr nad ydynt yn Gymry gael derbyn eu haddysg yng Nghymru ond cytunai â'i hawl i awgrymu y dylid lleihau'r niferoedd mewn prifysgolion yng Nghymru.
- Dywedodd Jonathan Morgan ei fod wedi gwrando ar safbwyntiau Huw Lewis a Gareth Jones. Dywedodd fod ganddo lawer o gydymdeimlad â safbwynt Huw Lewis, gan ei fod yn cael rhai agweddau ar y papur yn ymfflamychol a bron yn hiliol. Fodd bynnag, mynegodd Jonathan Morgan bryder y byddai'r cynnig, os câi ei dderbyn, yn gosod cynsail chwithig ar gyfer y modd y mae Pwyllgorau'n trafod tystiolaeth. Dadleuodd Jonathan Morgan fod angen arweiniad cadarn ynghylch y modd y mae Pwyllgorau'n trafod tystiolaeth. Dywedodd Jonathan Morgan ei fod yn credu bod cynnwys y cynnig yn gywir/priodol ond ni allai gefnogi'r cynnig oherwydd y gynsail chwithig a osodai.
- Mynegodd Eleanor Burnham bryder hefyd y byddai'r cynnig, os câi ei dderbyn, yn gosod cynsail chwithig ar gyfer y dyfodol. Dywedodd Eleanor Burnham fod ymddygiad yr Aelodau wedi peri anghyfleuster i eraill a oedd yn cyflwyno i'r Pwyllgor, gan fod cwyn ffurfiol wedi ei chyflwyno yn y cyfarfod ar 23 Mai 2001. Teimlai fod y Pwyllgor wedi bychanu dyn o statws academaidd (h.y. Dafydd Glyn Jones) a'i bod yn bosibl bod ganddo synnwyr digrifwch nad oedd yn dderbyniol i holl Aelodau'r Pwyllgor. Dywedodd Eleanor Burnham ei bod wedi ymgalonogi am fod cynnig gwreiddiol Huw Lewis wedi ei wella drwy roi un yn ei le.
- Dywedodd Alun Pugh fod mater y ddarpariaeth Gymraeg mewn Addysg Uwch yng Nghymru yn fater pwysig ond ei fod wedi cael papur Dafydd Glyn Jones yn un sarhaus. Yr oedd wedi ei dramgwyddo'n fawr gan oslef watwarus y papur a chynnig Dafydd Glyn Jones i leihau'r ddarpariaeth prifysgol a'i gyfeiriad at '*élite* llywodraethol brodorol hunanbarhaol'. Dadleuodd Alun Pugh ei fod yn ei chael yn annerbyniol bod syniadau rhagfarnllyd wedi eu gwisgo fel darn o waith academaidd.
- Ymatebodd Lorraine Barrett i sylw Eleanor Burnham am yr amser a ddyrannwyd/cymerwyd oddi wrth gyflwynwyr oherwydd y drafodaeth am y cynnig yn y cyfarfod diwethaf ar 23 Mai 2001. Dywedodd Lorraine Barrett y carai wybod pa faint o amser a ddyrannwyd yn wreiddiol i'r cyflwynwyr yn y cyfarfod, gan ei bod yn cofio nad oedd yn fawr iawn. Pwysleisiodd y gwrthgyferbyniad mewn amser ar gyfer y llwyfan i gyflwyniadau rhwng Dafydd Glyn Jones a'r cynrychiolwyr o'r Undebau Llafur. Ychwanegodd Lorraine Barrett y byddai'n peri annifyrrwch iddi pe byddai papur Dafydd Glyn Jones

yn cael ei adael yn ei gyfanrwydd ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Dywedodd nad oedd yn cael y syniad o Goleg Ffederal Cymraeg yn un tramgwyddus ond ei bod wedi cael rhai rhannau o'r dewis bwriadol o iaith ac arddull yn y papur yn anystyriol, yn estrongasaol, yn rhywiaethol ac yn dramgwyddus. Ychwanegodd Lorraine Barrett fod gan y Pwyllgor gyfrifoldeb i ddynodi deunydd/ tystiolaeth dramgwyddus.

- Dywedodd Janice Gregory nad oedd unrhyw fwriad yn y cynnig a gynigiwyd gan Huw Lewis i sensora'r drafodaeth. Dywedodd Janice Gregory na allai, fel Aelod Cynulliad, gyfiawnhau i'w hetholwyr gymryd sylwadau Dafydd Glyn Jones i ystyriaeth fel tystiolaeth ddifrifol. Ychwanegodd, os bwriad y Cynulliad Cenedlaethol oedd hybu Cyfle Cyfartal a Chynwysoldeb, y byddai'n anodd gwasgu am yr agenda Cyfle Cyfartal, os câi'r papur hwn ei dderbyn.
- Cyfeiriodd Pauline Jarman at Reol Sefydlog 7.2 a dywedodd fod yn rhaid i Aelodau ddangos parch tuag at Aelodau eraill, Swyddogion a thystion ac mai'r prif fater yn y drafodaeth hon oedd rhyddid barn a phwyso a mesur manteision ac anfanteision y dystiolaeth a gyflwynid i'r Pwyllgor. Dadleuodd Pauline Jarman y byddai materion/sylwadau bob amser na fyddai rhai Aelodau Pwyllgor yn cytuno â hwy ac na fyddent yn cytuno â'r holl syniadau a gyflwynid iddynt ond nid oedd hynny'n golygu na ddylent wrando ar farn anuniongred. Dywedodd Pauline Jarman fod ganddi bob ffydd yn y modd yr oedd y Cadeirydd wedi rheoli'r drafodaeth ar y mater hwn yn y cyfarfodydd pwyllgor blaenorol.
- Terfynodd Huw Lewis y drafodaeth drwy ddweud nad oedd yn arfer priodol defnyddio pwyntiau trefniadol i danseilio pwyntiau o egwyddor a bod Gareth Jones wedi cynnig gwelliant i gynnig nad oedd yn bod. Dywedodd ei fod yn deall nerfusrwydd Jonathan Morgan ynghylch gosod cynseiliau chwithig ar gyfer y dyfodol ond os nad oedd y Pwyllgor yn gwneud sylwadau ar yr hyn a gredai a oedd yn briodol, byddai'r gynsail yn cael ei gosod fel arall ac ni fyddai disgwyl i'r Pwyllgor wneud sylwadau ar ei farn am briodolrwydd papurau. Dywedodd Huw Lewis fod y Cadeirydd wedi cydnabod bod gan y Pwyllgor hawl i wneud sylw. Gwrthododd Huw Lewis gasgliad cynharach Eleanor Burnham bod y pwyllgor yn ymddwyn yn blentynnaidd. Dywedodd Huw Lewis fod syniadau Dafydd Glyn Jones yn groes i ysbryd y Rheolau Sefydlog.

**Wedyn gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor i bleidleisio ar y gwelliant a gyflwynwyd gan Gareth Jones a nodir yn ELL 11-01(p.1).**

*Pleidleisiodd **pedwar** Aelod **o blaid** y gwelliant:*

*Cynog Dafis – Cadeirydd*

*Jonathan Morgan*

*Pauline Jarman*

*Gareth Jones*

*Pleidleisiodd **chwe** Aelod **yn erbyn** gwelliant Gareth Jones:*

*Jane Davidson – Gweinidog*

*Lorraine Barrett*

*Janice Gregory*

*Eleanor Burnham*

*Huw Lewis*

*Alun Pugh*

***Felly gwrthodwyd gwelliant Gareth Jones a gwahoddodd y Cadeirydd y Pwyllgor wedyn i bleidleisio ar gynnig Huw Lewis a nodir yn ELL 11-01(p.1):***

*Pleidleisiodd **chwe** Aelod **o blaid** y cynnig:*

*Jane Davidson – Gweinidog*

*Lorraine Barrett*

*Janice Gregory*

*Eleanor Burnham*

*Huw Lewis*

*Alun Pugh*

*Pleidleisiodd **pedwar** Aelod **yn erbyn** y cynnig:*

*Cynog Dafis – Cadeirydd*

*Jonathan Morgan*

*Pauline Jarman*

*Gareth Jones*

***Felly derbyniwyd cynnig Huw Lewis.***

- Datganodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud sylwadau am dderbyn y cynnig y tu allan i'r Pwyllgor. Gyda golwg ar y drafodaeth ynghylch penderfyniad gwreiddiol y Cadeirydd i ddod â phapur Dafydd Glyn Jones gerbron y Pwyllgor, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gwneud sylw ar hynny hefyd yn y dyfodol. Yn dilyn hyn, cyhoeddodd y Cadeirydd datganiad i aelodau'r Pwyllgor ynghlyn â'r mater hon ac fe welir yn Atodiad E

**Eitem Dau: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 11- 01(p.2)***

2.1 Rhoddodd y Gweinidog ei hadroddiad misol i'r Pwyllgor ar faterion yr oedd yn eu trafod ar y pryd. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys materion yr oedd yr Aelodau wedi gofyn i'r Gweinidog adrodd arnynt. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad yn fyr ac wedyn rhoddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau.

2.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod, mewn perthynas ag ymweliadau'r Gweinidog ag Ysgolion Uwchradd yng Nghymru, a fu unrhyw adborth oddi wrth benaethiaid ysgol ynghylch y trefniadau arholi ôl-16 newydd (Safon Uwch Gyfrannol) a'r ffaith bod myfyrwyr ôl-Blwyddyn 12 yn gorfod penderfynu pa dri phwnc i'w dilyn cyn iddynt dderbyn canlyniadau eu harholiadau Blwyddyn 12. Gwnaeth yr Aelodau sylwadau am y pwysau ar Gyd-bwyllgor Addysg Cymru mewn perthynas â phrinder arholwyr a holasant y Gweinidog a fyddai Cymru'n cael ei Hadolygiad ei hun ar y Safon Uwch Gyfrannol. Dywedodd y Gweinidog y byddai adolygiad ar y cyd gan ACCAC a'r Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm ac yr oedd yn awyddus i brofiad Cymru gael ei gyfrannu i'r adolygiad hwn. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi ymrwymo i ddarparu'r dewis ehangaf posibl o gyfleoedd addysgol i Gymru. Yr oedd y Safon Uwch Gyfrannol wedi ei chefnogi'n gryf gan y Pwyllgor ôl-16 blaenorol, athrawon ac addysgwyr; yr oedd y Safon Uwch Gyfrannol yn sefyll ochr yn ochr â Safon Uwch, y Safon Uwch Alwedigaethol a Sgiliau Allweddol. Dywedodd y Gweinidog fod penaethiaid ysgol, ar ei hymweliadau ag ysgolion, wedi dod â mater Sgiliau Allweddol i'w sylw yn hytrach na'r Safon Uwch Gyfrannol. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn bwysig bod yr adolygiad ar y cyd yn cymryd i ystyriaeth y baich presennol ar y cwricwlwm.
- Cododd yr Aelodau y mater o ba un a gynhelid archwiliad ar Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant (CCAH) a pha nifer o Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant a oedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Dywedodd y Gweinidog fod datblygu aruthrol mewn CCAH yn digwydd ar hyn o bryd a bod y cyfrifoldeb o ddatblygu CCAH wedi ei ymddiried i Addysg a Dysgu Cymru. Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor nad oedd Addysg a Dysgu Cymru ond wedi ei sefydlu ers 1 Ebrill 2001 a bod archwiliad o aelodaeth y CCAH yn mynd ymlaen. Credai bod yna 20 o Gonsortia Cymunedol Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, os nad yw Conwy a Sir Ddinbych wedi gwahanu.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog a fu unrhyw ddatblygiadau yng Nghynllun Rhagbrawf y Fagloriaeth Gymreig, yng ngoleuni'r datblygiadau diweddar mewn Safon Uwch Gyfrannol. Hysbysodd y Gweinidog y Pwyllgor y byddai'n gwneud datganiad ar gynnydd Cynllun Rhagbrawf y Fagloriaeth Gymreig ar 21 Mehefin 2001.
- Cododd yr Aelodau fater y gostyngiadau arfaethedig mewn targedau hyfforddi cychwynnol athrawon cynradd yng Nghymru ac a fyddai goblygiadau yn hynny i'r rhesymoli ar gyrsiau/proffesiynau eraill, h. y. peirianneg (lle'r oedd gorddarpariaeth). Atebodd y Gweinidog gan hysbysu'r Pwyllgor iddi fod mewn trafodaethau â darparwyr Hyfforddiant Athrawon a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ynghylch targedau. Yr oedd yr wybodaeth yn cael ei chasglu ar lefel Cymru/Lloegr ar sail tystiolaeth. Gan fod £6,500 y pen o arian y Cynulliad yn cael ei ddyrannu ar gyfer hyfforddi athrawon cynradd, yr oedd yn bwysig cael proffesiwn dysgu a oedd yn gweithio dros Gymru.
- Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a fu unrhyw arbedion diwedd blwyddyn ar gyfer Addysg ac a oedd unrhyw danwariant mewn Addysg. Dywedodd y Gweinidog fod llawer o adrannau'r Cynulliad wedi tanwario mewn rhai meysydd ac os oedd hynny wedi digwydd yr oedd yn caniatáu hyblygrwydd

diwedd blwyddyn. Ymgymerodd Richard Davies i ddarparu mewn ysgrifen union ffigur y tanwariant ar gyfer Addysg; cofiai ei fod rhwng £30 miliwn a £58 miliwn. Yr oedd elfen fawr iawn yn ymwneud â derbyn arian cyfalaf newydd, fel y gellid disgwyl. Holodd rhai Aelodau a oedd y tanwariant ar ddiwedd blwyddyn ar gyfer Addysg yn cael ei gario ymlaen neu ei ychwanegu at y gyllideb sylfaen. Atebodd Richard Davies nad oedd dim o'r arian a ddyrannwyd i Addysg wedi ei golli; yr oedd penderfyniadau gan y Weinyddiaeth yn sicrhau y câi arian ei ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol.

- Holodd y Pwyllgor y Gweinidog a fyddai'r £500,000 o gyllid ar gyfer Addysg Gorfforol a chwaraeon yn yr ysgol yn mynd yn uniongyrchol at yr ysgolion neu'n syth at y Canolfannau Datblygu Cwricwlwm peilot. Hefyd, codwyd cwestiwn ynghylch a oedd darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer cyllid i'r fenter hon. Atebodd y Gweinidog gan ddweud bod y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol wedi cynhyrchu ei adroddiad gan amlinellu ei argymhellion. Yr oedd y Gweinidog wedi cyhoeddi adroddiad y Tasglu ar gyfer ymgynghori a phwysleisiodd y byddai Cydlynydd Cenedlaethol a Gr•p Llywio yn cael eu penodi. Yr oedd cyllid ychwanegol wedi ei ddarparu'n bennaf i gynorthwyo'r Canolfannau Datblygu Cwricwlwm peilot. Gobeithid y byddai'r fenter hon yn annog ysgolion a sefydliadau Addysg Bellach i wneud y defnydd gorau o'r ddarpariaeth Addysg Gorfforol. Yr oedd darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer y cyllid a ddarparwyd i'r fenter Addysg Gorfforol.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog a oedd yn bwriadu adrodd yn ôl o Gyd-bwyllgor Addysg Cymru (CBAC) ar fater y Safon Uwch Gyfrannol gan ei bod wedi datgan hynny yn Nhachwedd 2000. Dywedodd y Gweinidog na chawsai unrhyw ddeialog â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ers cyflwyno'r Safon Uwch Gyfrannol ond byddai'r Swyddogion mewn cysylltiad â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ar gyfer yr adolygiad ar y cyd o'r Safon Uwch Gyfrannol. Atgoffaodd y Gweinidog y Pwyllgor am union eiriad ei hymrwymiad yn Nhachwedd 2000 ac ategodd ei haddewid y byddai'n cychwyn cyfarfodydd rheolaidd â Chyd-bwyllgor Addysg Cymru ac y byddai'n cyfarfod â Chadeirydd newydd CBAC cyn gynted ag y câi ei benodi. Pwysleisiodd y Gweinidog fod cyfrifoldeb ganddi hi fel Gweinidog a chan y Cynulliad am fframwaith arholiadau priodol yng Nghymru; byddai'r Gweinidog yn canolbwyntio ar faterion addysgol gyda Chyd-bwyllgor Addysg Cymru.
- Yr oedd yr Aelodau'n bryderus ynghylch y lefelau uchel o ordewdra ymysg plant ysgol yng Nghymru ac y gallai arwain at broblemau iechyd yn ddiweddarach yn eu hoes ac y dylid pwyso ar y Gweinidog i annog disgyblion ac athrawon i seiclo, cerdded neu ddarganfod dull iachus arall yn hytrach na eistedd mewn car i gyrraedd yr ysgol. Yr oedd Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd, yn hybu menter: 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol' ac awgrymwyd y gallai'r Gweinidogion gydweithio ar y mater hwn.
- Gofynnodd yr Aelodau i'r Gweinidog pa bryd yr ymgynghorwyd â hi'n gyntaf ynghylch yr adolygiad ar y cyd o'r Safon Uwch Gyfrannol, sut y byddai'r adolygiad yn digwydd ac a oeddid wedi ymgynghori ag Estelle Morris, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ynghylch yr adolygiad hwn. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cynnig y dylai adolygiad o'r math hwn ddigwydd mewn deialog â'r cyn Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, David Blunkett. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn falch bod ei chynigion wedi eu cymryd o ddifrif a hynny mor fuan drannoeth yr Etholiad Cyffredinol (7 Mehefin 2001).

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru a Chomisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd**

***Papur: ELL 11-01(p.3) a (p.4)***

3.1 David Groves, Swyddog Seneddol a Pholisi a Nicola Crews, Uwch Swyddog Addysg a Chyflogaeth, a gyflwynodd ar ran Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru. Gellir gweld copi o'u cyflwyniad tryloywluniau yn Atodiad B. Alun Thomas, Pennaeth Cyfathrebu a Newid a gyflwynodd ar ran Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd. Rhannodd Alun Thomas bapur atodol ymysg yr Aelodau yn y cyfarfod; gellir ei

weld yn Atodiad C.

3.2 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Cododd yr Aelodau fater yr her fawr yn y dyfodol wrth weithredu Deddf Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliau Pobl ag Anabledd mewn Addysg (8 Mai 2001). Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod a oedd archwiliad wedi ei wneud ynghylch newidiadau angenrheidiol a'r costau dilynol. Cododd yr Aelodau y mater o ba un a oedd myfyrwyr ag amhariadau synhwyraidd yn cael eu rhwystro rhag mynychu sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch oherwydd eu hanabledd ac/ neu gan anallu'r sefydliadau i ymateb i anghenion y myfyrwyr hyn. Dywedodd Alun Thomas fod y cwbl o'r dystiolaeth a gasglwyd yn anecdotaidd ac yr oedd angen llawer iawn mwy o waith yn y maes hwn. Ychwanegodd fod SKILL wedi ymchwilio i'r mater hwn ymhellach i ffwrdd. Eglurodd Alun Thomas fod rhai rhwymedigaethau yr oedd gofyn i sefydliadau eu cyflawni yn 2001 ac yn 2004, o ganlyniad i amryw o Ddeddfau Seneddol, e.e. gwella mynediad ffisegol, a hefyd i'r cyhoedd a ddefnyddiai'r cyfleusterau hyn. Byddai angen gwella cyfleusterau ategol erbyn 2003-05. Pwysleisiodd Alun Thomas y gwahaniaeth mewn amserlennu a'i gwnâi'n anodd trosglwyddo'r negeseuon i golegau.

Ychwanegodd Nicola Crews nad oedd y gwelliannau'n ymwneud â mynediad ffisegol yn unig. Er enghraifft, dim ond 50 y cant o fyfyrwyr ag amhariad ar eu golwg a dderbyniai ddeunydd ar ffurf y gallent ei defnyddio ar yr un pryd â'u cyfoedion sydd yn gallu gweld ac yr oedd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yn bryderus ynghylch amserlen bosibl ar gyfer cael deunydd ar ffurf y gellid ei defnyddio. Barn Nicola Crews oedd bod angen newid yn agweddau'r staff a bod hyn felly yn fater hyfforddi. Ychwanegodd David Groves na ddylid anghofio bod myfyrwyr dall a rhannol ddall yn cael eu harholi ar y deunyddiau hynny yr oeddent yn eu defnyddio i astudio ac nid ar eu gallu i ddarparu'r deunyddiau hyn iddynt hwy eu hunain.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at bapur Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion (ELL 11-01(p.3)), *"mae angen safoni cymorth effeithiol, ymarferol o safon uchel ar gyfer myfyrwyr dall a rhannol ddall mewn addysg uwch…"* Holodd yr Aelodau bwy neu ba gorff a allai gadw golwg ar hynny a hefyd, gan fod y papur yn hysbysu'r Pwyllgor mai'r newid mwyaf i fyfyrwyr dall/rhannol ddall oedd hwnnw rhwng Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd a Safon Uwch, a ddylid cael lwfans anabledd ar gyfer pob myfyriwr ôl-16 ag anabledd. Yr oedd o ddiddordeb i'r Aelodau wybod am gost rhoi'r gwelliannau ar waith. Atebodd Nicola Crews fod llawer o blith y myfyrwyr ôl-16 a geisiai gyngor gan Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion nad oeddent yn llwyddo. Ni chynhelid y newid o'r ysgol i Addysg Bellach gan fod y cymorth rheolaidd gan staff tra chymwysedig yn dod i ben. Hefyd, yr oedd trosglwyddo i'r brifysgol o'r ysgol/Addysg Bellach yn peri problemau gan fod gofyn set wahanol o fedrau; câi myfyrwyr eu hasesu ar gyfer lwfans ond nid oedd yr offer arbenigol yn cyrraedd y myfyrwyr yn ddigon buan. Ychwanegodd Nicola Crews fod y pwyntiau trosglwyddo'n gwanhau a bod hyn efallai'n dangos bod materion ymarferol a hyfforddiant i'w hystyried; gallai lwfans i bob myfyriwr ôl-16 ag anabledd fod yn ateb posibl. Byddai Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion yn awyddus i weithio gyda gwahanol asiantaethau a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- Gofynnodd y Cadeirydd eto a fyddai angen corff i gadw golwg a pha gyllid y byddai ei angen i gychwyn newidiadau/gwelliannau digonol ar gyfer y myfyrwyr gan y gallai hynny fod yn wybodaeth i'w hystyried ar gyfer Adroddiad Terfynol y Pwyllgor ar yr Adolygiad o Addysg Uwch. Dywedodd Alun Thomas ei bod yn holl bwysig bod myfyrwyr o Gymru'n cael eu trin yn deg gyda'u cyfoedion yn Lloegr o ran mynediad ffisegol i adeiladau – amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio tua £7 miliwn. Hefyd, byddai'n rhaid cymryd datblygu cymhorthion a gwasanaethau ategol i ystyriaeth. Yr oedd angen hybu ymwybyddiaeth a gwella agweddau, yn enwedig yn y sector Addysg Uwch. Yn y sector

Addysg Bellach, bu diffyg mynediad i leoliadau gwaith ar gyfer myfyrwyr ag anabledd. Yr oedd y Cyngor Sgiliau yn Lloegr yn cyflwyno ei argymhellion.

- Yr oedd o ddiddordeb i Aelodau'r Pwyllgor wybod a oedd tystiolaeth bod gan Sefydliadau Addysg Uwch system gwota ar gyfer pobl anabl. Atebodd Alun Thomas fod mythau cyffredin yn y gymdeithas a bod angen i gymdeithas edrych y tu hwnt i faterion anabledd corfforol, cost ac anhwylustod.
- Gwnaeth yr Aelodau sylwadau ar ymrwymiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r agenda Cyfle Cyfartal ac a ddylid ymgorffori hyfforddiant Cyfle Cyfartal mewn hyfforddiant athrawon cychwynnol gan ei bod yn bwysig hybu ymwybyddiaeth. Cytunodd Alun Thomas â'r sylwadau a phwysleisio mor anodd ydoedd i fyfyriwr orfod dweud wrth ei holl diwtoriaid am ei anabledd a'r anghenion dilynol: dylai un unigolyn fod yn gyfrifol am hynny. Ategodd David Groves sylwadau Alun Thomas a phwysleisio ei bod yn bwysig bod darlithwyr Addysg Uwch yn derbyn hyfforddiant priodol ac y dylai un unigolyn allweddol ailadrodd ac ailegluro gofynion myfyrwyr anabl. Dywedodd Nicola Crews fod angen hyfforddiant penodol mewn byddardod ac amhariad ar y golwg, yn ogystal â hyfforddiant Cyfle Cyfartal, mewn hyfforddiant athrawon cychwynnol.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ddefnyddiol cael deialog â Gyrfaoedd Cymru er mwyn asesu sut y gallai rhai ag anableddau fynd yn eu blaen yn briodol yn y sectorau Addysg Bellach ac Addysg Uwch. Nododd y Gweinidog ei bod yn teimlo'n chwithig ynghylch y ffaith bod Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion a Chomisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd yn gorfod dibynnu ar dystiolaeth anecdotaidd; yr oedd yn well gan y Gweinidog weithredu ar wybodaeth a oedd yn seiliedig ar dystiolaeth. Teimlai'r Gweinidog ei bod yn bwysig cael gwybodaeth ar sail tystiolaeth er mwyn ystyried yr ymrwymiad i Gyfle Cyfartal a sefydliadau'r farchnad yn effeithiol – efallai drwy gyfrwng Cyngor/Cyfarwyddyd Gyrfaoedd a'r Rhyngrwyd. Cytunodd Alun Thomas fod hyn yn awgrym cadarnhaol gan fod Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd yn awyddus i weithio gyda'r Cynulliad.
- Holodd y Gweinidog a oedd y cyflwynwyr yn fodlon ar godau ymarfer yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ac a oedd tystiolaeth bod Sefydliadau Addysg Uwch yn cydymffurfio â'r codau ymarfer hyn. Dywedodd Alun Thomas yr hoffai weld llawer mwy o enghreifftiau o arfer da – yr oedd angen dangos y gellid datrys y materion dan sylw. Nid oedd tystiolaeth benodol mewn perthynas â chodau ymarfer yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd ond gobeithiai y byddai tystiolaeth i'w chasglu ar y codau newydd a gyhoeddwyd.

**Eitem Pedwar: 'Lleihau Beichiau Biwrocrataidd mewn Ysgolion'**

***Papur: ELL 11- 01(p.5) Nodyn esboniadol a***

***ELL 11- 01(p.5) Atodiad 1 Adroddiad Drafft***

4.1 Cyflwynodd Mandy Paish, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Tongwynlais, a secondiwyd i Is-adran Rheoli Ysgolion y Cynulliad i arwain y prosiect hwn, ei hadroddiad drafft i'r Pwyllgor a gwahoddodd yr Aelodau i wneud sylwadau. Gellir gweld copi o'i chyflwyniad Powerpoint yn Atodiad D. Gyda hi yr oedd Elizabeth Taylor, Pennaeth yr Is-adran Rheoli Ysgolion a Suzanne Chisholm, a fu hyd yn ddiweddar yn rheolwr llinell yn yr Is-adran Rheoli Ysgolion gyda chyfrifoldeb am y prosiect.

4.2 Rhoddodd y Gweinidog ragarweiniad i'r adroddiad:

- Diolchodd y Gweinidog i Mandy Paish am gynhyrchu'r adroddiad ac i aelod gyrff y gr•p ymgynghorol

prosiect ar gyfer y prosiect, am eu cymorth. Nododd y Gweinidog ei hymrwymiad personol i ryddhau amser athrawon drwy leihau beichiau biwrocrataidd. Yr oedd casgliadau'r adroddiad yn seiliedig ar dystiolaeth ac yr oeddent yn fan cychwyn i waith pellach. Anogodd y Gweinidog y Pwyllgor i gynnig sylwadau ar yr adroddiad. Ystyrid unrhyw sylwadau ac unrhyw faterion a godid gan y gr•p ymgynghorol yn ei gyfarfod pellach ar 18 Mehefin wrth gwblhau'r adroddiad ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf 2001.

4.3 Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Dywedodd yr Aelodau y dylid ystyried bod cefnogaeth gan yr holl bleidiau i'r ymarfer hwn. Amcan yr adroddiad oedd lleihau'r beichiau biwrocrataidd presennol ar athrawon a sicrhau nad oedd penderfyniadau yn y dyfodol yn ychwanegu at y beichiau cyffredinol.
- Gofynnodd yr Aelodau i Mandy Paish a oedd ei dadansoddiad yn dangos pa faint o amser yr oedd athrawon yn ei dreulio wrth ymdrin â biwrocratiaeth. Dywedodd Mandy Paish nad oedd wedi ceisio mesur yr amser a dreulir. Ymddangosai'n debygol y byddai'r adolygiad ar faich gwaith athrawon a gomisiynwyd gan Gorff Adolygu Athrawon Ysgol yn darparu gwybodaeth y gellid ei defnyddio fel meincnod i asesu cynnydd.
- Yr oedd o ddiddordeb i'w Pwyllgor wybod pa fecanweithiau cymorth a fyddai ar waith i helpu staff ysgolion i weithredu argymhellion yr adroddiad. Hysbysodd Elizabeth Taylor y Pwyllgor mai ymateb pwysig gan Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru oedd y byddai'n argymell y dylai Awdurdodau Addysg Lleol drafod yr adroddiad gyda'u hysgolion a'u helpu i adolygu eu systemau mewnol. Yr oedd y Gweinidog ac Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol yn bwriadu siarad â'r Awdurdodau Addysg Lleol ynghylch eu fformiwlâu cyllido lleol ar gyfer ysgolion a byddent yn ymdrin â'r cwestiwn o ba un a oedd y fformiwlâu hynny yn rhoi digon o gydnabyddiaeth i'r angen am gymorth weinyddol mewn ysgolion. Byddai'r Cynulliad Cenedlaethol yn lledaenu argymhellion yr adroddiad i'r ysgolion (ar ffurf crynodeb byr yn ôl pob tebyg a byddai'r adroddiad llawn ar gael ar y Rhyngrwyd ac ar gais). Byddai Adran Addysg a Hyfforddiant y Cynulliad Cenedlaethol yn sefydlu system ddidoli i fonitro ffurf a maint yr wybodaeth a ddosbarthir i ysgolion gan y Cynulliad.
- Dywedodd un Aelod y byddai wedi bod yn dda ganddo pe buasai'r adroddiad wedi ymdrin â mater ymgeisio am gyllid GCAH a chyfrifoldebau Estyn ac ACCAC. Atgoffaodd y Cadeirydd yr Aelodau fod Mandy Paish wedi gorfod gweithio'n gyfan gwbl oddi mewn i'r cylch waith a roddwyd iddi ar gyfer y prosiect. Holodd rhai Aelodau a oedd y lefelau biwrocratiaeth yn iawn ac a oedd unrhyw dystiolaeth bod addysg wedi ei gor-reoleiddio. Atebodd Mandy Paish nad oedd y lefelau biwrocratiaeth yn 'iawn'. Er bod yr adroddiad wedi dod i'r casgliad nad oedd meysydd gweithgaredd y gellid rhoi'r gorau iddynt – yr oeddent oll yn berthnasol i wella ysgolion – yr oedd angen gwella'r systemau biwrocrataidd dan sylw. Nid oedd ei hystyriaeth o'r ddeddfwriaeth yn awgrymu bod gor-reoleiddio ar addysg ysgolion.
- Yr oedd yr Aelodau'n bryderus y byddai gweithredu'r argymhellion yn cynyddu'r beichiau biwrocrataidd ar athrawon. Yr oedd yr Aelodau hefyd yn meddwl tybed a allai'r Cynulliad ddarbwyllo llywodraeth y DU i ddileu'r gofyniad mewn deddfwriaeth sylfaenol am gyfarfod blynyddol o lywodraethwyr gyda rhieni. Hysbysodd Suzanne Chisholm y Pwyllgor bod trafodaethau wedi digwydd gyda'r Gr•p Ymgynghorol ynghylch sut i fwrw ymlaen â'r argymhellion o'r Cynllun Gweithredu. Ni ddylai gweithredu'r Cynllun Gweithredu greu beichiau i ysgolion. Terfynodd y Gweinidog y drafodaeth drwy hysbysu'r Pwyllgor nad oedd y prosiect hwn wedi ceisio ymdrin â'r materion llwyth gwaith sydd yn cael eu hystyried gan Gorff Adolygu Athrawon Ysgol ond â lleihau beichiau biwrocrataidd ar ysgolion yng Nghymru. Yr oedd agweddau pwysig ar waith Estyn ac ACCAC gydag ysgolion wedi eu hadolygu fel rhan o'r prosiect. Pwysleisiodd y Gweinidog ei bod yn bwysig gweithio gydag Awdurdodau Addysg Lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymatebodd y Gweinidog i ymholiadau'r Aelodau ynghylch cyllido GCAH ac atgoffaodd y Pwyllgor

nad oedd dyrannu cyllid GCAH yn broses ymgeisio agored – yr oedd yr awdurdodau'n derbyn dyraniad ac yn gorfod cyfwyno cynigion am gyllid ar ei gyfer. Yr oedd y Cynulliad yn archwilio at ddibenion sicrwydd ansawdd yn y bôn. Gyda golwg ar gyfarfod blynyddol y llywodraethwyr, dywedodd y Gweinidog y byddai'n dymuno ystyried yn ofalus iawn ac ymgynghori cyn dod i'r casgliad ei bod yn iawn dileu'r unig gyfle a oedd ar gael i rieni alw Corff Llywodraethol i gyfrif am ei weithredoedd. Diolchodd y Gweinidog i'r Pwyllgor am eu sylwadau ar yr adroddiad a fyddai'n cael eu hystyried wrth gwblhau'r adroddiad ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn.

**Eitem Pump: Cofnodion cyfarfod 23 Mai 2001**

***Papur: ELL 10-01 (mins)***

5.1 Cadarnhaodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol ar 23 Mai 2001. Codwyd y materion canlynol yn y drafodaeth:

- Yr oedd gan Huw Lewis wrthwynebiad i dudalen pump o gofnodion 23 Mai 2001. Cyfeiriodd at y cyfeiriad ynghylch yr Arglwydd Dearing. Hysbysodd Huw Lewis y Cadeirydd ei fod wedi cyfeirio at Dafydd Glyn Jones ac nid at yr Arglwydd Dearing. *(Mae'r cofnodion wedi eu newid bellach.)*
- Yr oedd gan Janice Gregory wrthwynebiad hefyd a chyfeiriodd at bwynt pedwar ar dudalen pedwar yn y cofnodion, lle y dywedid, "awgrymodd y Cadeirydd y dylai Janice Gregory gymryd cyngor ynghylch pa bryd y gallai herio'r Cadeirydd". Eglurodd Janice Gregory nad oedd yn cofio i'r Cadeirydd ddweud hyn a gofynnodd am wirio'r Cofnod o Drafodion a dileu'r frawddeg os na ddywedwyd hi*. (Mae'r cofnodion wedi eu newid bellach.)*
- Gofynnodd y Gweinidog am ddeialog ar wahân gyda'r Cadeirydd y tu allan i'r cyfarfod. Cytunodd y Cadeirydd a dweud y byddid yn dod â'r newidiadau'n ôl i'r Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.

**Papurau i'w Nodi**

**Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol, Cynllun Gweithredu i Gymru - Adroddiad y Tasglu Addysg Gorfforol a Chwaraeon yn yr Ysgol 2001**

***Papur ELL 11-01(p.6)Llythyr esboniadol ac***

***ELL 11-01(p.6) Atodiad 1 – Yr Adroddiad***

**Cysyniad Prifysgol Newydd i Gymru**

Papur gan yr Athro Michael Scott, Prifathro a Phrif Weithredwr Athrofa Gogledd Ddwyrain Cymru

***Papur: ELL 11-01(p.7)***

**Llythyr oddi wrth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd at y Cadeirydd: Adolygiad Polisi Addysg Uwch, "Pwysigrwydd Sefydliadau Addysg Uwch o'r Radd Flaenaf i Ddatblygiad Economaidd yng Nghymru"**

**Diwedd y Sesiwn Cyhoeddus**

**Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn preifat: Adolygiad Polisi – Addysg Uwch – Cam Gwerthuso I.**

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2001**

## Atodiad B

## Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru

### Y Ffeithiau

- Mae 75% o bobl ddall a rhannol ddall o oed gweithio yn ddi-waith.
- O blith y 25% sydd mewn gwaith, mae 86% mewn swyddi â thâl is.
- Ceir llawer o fyfyrwyr nad ydynt yn cyrraedd addysg ar lefel Addysg Uwch oherwydd diffyg cymorth yn ystod cyrsiau Safon Uwch/Mynediad.

Cyf. (a/b Bruce *et al*., Adult Needs Survey, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion 1991).

### Yr anawsterau a ganfuwyd...

- Teithio yn ôl a blaen i'r Brifysgol ac oddi mewn iddi
- Diffyg ymwybyddiaeth ymysg y staff
- Astudio a chymryd nodiadau

### Teithio

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru yn argymell:

Hyfforddiant cyfeiriadu a symudoledd o safon uchel cyn dechrau'r cwrs.

- Wedi ei gydlynu gan Swyddog Anabledd y Brifysgol

- yn cynnwys campws y Brifysgol a’r prif lwybrau yn ôl ac ymlaen i’r man preswyl, canol y ddinas, trafnidiaeth gyhoeddus, a.y.b.

**Ymwybyddiaeth ymysg staff**

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru yn argymell:

Hyfforddiant ymwybyddiaeth anabledd penodol ar gyfer yr holl staff dysgu a staff rheng flaen.

- Asesiadau Lwfans Myfyriwr Anabl amserol fel bod yr anghenion yn hysbys ymhell o flaen llaw
- cyfle i’r staff drafod anghenion unigol penodol cyn dechrau’r cwrs.

**Astudio/Cymryd Nodiadau**

Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion Cymru yn argymell:

Cyfle cyfartal i fyfyrwyr ag anableddau.

- offer i astudio gartref ac ar y campws
- mynediad cynhwysfawr ac amserol i’r holl ddeunyddiau astudio ar ffurfiau y gellir eu defnyddio pan fo’u hangen.

**Casgliad**

Rhaid safoni cymorth effeithiol, ymarferol o safon uchel - safon gyffredin ledled Cymru.

**Atodiad C**

**Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd**

**Rhagarweiniad**

Mae’r Arolwg Gweithlu ar gyfer Awst 2000 yn dangos bod pobl anabl ym Mhrydain Fawr at ei gilydd bron saith gwaith yn fwy tebygol na phobl nad ydynt yn anabl o fod yn ddi-waith ac o dderbyn budd-daliadau. At hynny, yng Nghymru mae gan 23% o’r boblogaeth o oed gweithio anabledd tymor hir o’i gymharu â’r holl ranbarthau/gwledydd ym Mhrydain Fawr ac mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 19% yn gyffredinol ym Mhrydain Fawr.

Mae myfyrwyr blwyddyn gyntaf ag anableddau sydd yn astudio mewn sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn 3.8% o gyfanswm y boblogaeth o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf (Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch 1998/99)

**Materion a phwyntiau ar gyfer gweithredu:**

Daeth y Mesur Anghenion Addysgol Arbennig a Hawliau Pobl ag Anabledd yn ddeddf ar 8 Mai 2001. Ni

chaiff darparwyr Addysg Uwch drin myfyrwyr anabl yn llai ffafriol na myfyrwyr nad ydynt yn anabl, heb gyfiawnhad. Rhaid i sefydliadau Addysg Uwch wneud newidiadau rhesymol i osgoi rhoi myfyrwyr anabl o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â myfyrwyr nad ydynt yn anabl.

- Erbyn Medi 2002 rhaid i sefydliadau Addysg Uwch beidio â thrin myfyrwyr anabl yn llai ffafriol.
- Erbyn Medi 2003 rhaid i sefydliadau Addysg Uwch ddarparu cymhorthion a gwasanaethau ategol pan fo'u hangen.
- Erbyn Medi 2005 rhaid i sefydliadau Addysg Uwch dynnu neu newid nodweddion ffisegol sydd yn rhwystr i fynediad.

Mae myfyrwyr sydd yn dymuno dod ag achosion o dan y Ddeddf newydd yn gallu gwneud hynny yn y Llys Sirol a gellir dyfarnu iawndal iddynt os enillant eu hachos. Ni ellir 'cyfiawnhau' gwahaniaethu oni bai ei fod o gymorth i gynnal yr angen am safonau academaidd. Bydd y mesurau newydd yn cynnwys pob agwedd ar fywyd myfyrwyr gan gynnwys mynediad i neuaddau preswyl a chyfleusterau chwaraeon a hamdden.

Gall Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd helpu gyda gorfodi'r mesurau a bydd yn cynhyrchu Codau Ymarfer i egluro'r Ddeddf i ddarparwyr addysg, pobl anabl ac eraill. Bydd Codau Ymarfer Comisiwn Hawliau Pobl ag Anabledd yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol ar y ddarpariaeth lefel sylfaen sydd yn dderbyniol.

Mae angen darparu adnoddau digonol i ddarparwyr addysg yng Nghymru i'w helpu i gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y Ddeddf newydd.

Mae angen i sefydliadau Addysg Uwch unigol archwilio ansawdd y mynediad ffisegol i'w cyrsiau ac edrych ar God Ymarfer yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd i gael arwyddion cyfeirio at yr arfer gorau. Dylid annog sefydliadau Addysg Uwch i weithio ar y cyd i gwrdd ag anghenion myfyrwyr ag anableddau amlder isel.

Byddai staff academaidd a staff eraill a gyflogir mewn Addysg Uwch yn elwa'n fawr ar well dealltwriaeth o anghenion myfyrwyr anabl drwy gymryd rhan mewn hyfforddiant cydraddoldeb anabledd. Rhaid i'r holl staff ymrwymo i'r egwyddor y dylai rhywun sydd â'r gallu i dderbyn Addysg Uwch gael y cyfle i gael budd ohoni.

Drwy gael mwy o gydweithio rhwng sefydliadau Addysg Uwch, y Gwasanaeth Cyflogaeth ac asiantaethau eraill gellir gwella'r arwyddion cyfeirio at gyllid i fyfyrwyr ag anableddau nad ydynt yn gymwys i dderbyn Lwfans Myfyriwr Anabl. Pwrpas y cyllid hwn yw helpu i dalu costau ychwanegol sydd yn ganlyniad uniongyrchol i anabledd. Drwy well cysylltiadau a throsglwyddo gwybodaeth gellir hybu mynediad a chyfranogiad i fyfyrwyr gyda dewis ehangach o gyrsiau rhan amser nad ydynt yn arwain at radd.

**Atodiad D** - Dogfen ar wahan

**Atodiad E**

**Penderfyniadau'r Cadeirydd ym Mater Dafydd Glyn Jones**

Yn ystod y trafodaethau ar yr uchod, mewn cyfarfodydd pwyllgor ac yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad, awgrymwyd nifer o droeon amheuon ynghylch priodoldeb rhai o fy mhenderfyniadau i fel Cadeirydd. Dyma ymgais felly i osod allan amddiffyniad o'r penderfyniadau hynny. O edrych yn ol a dwys ystyried, rwy o'r farn fod fy mhenderfyniadau wedi bod yn gywir ar hyd y daith.

1. Ynglyn a'r awgrym oddi wrthyf fi fod Dafydd Glyn Jones yn cael ei wahodd i roi tystiolaeth, rwy'n hyderus i fi wneud y peth iawn. Dafydd Glyn Jones yw awdur y syniad o Goleg Ffederal Cymraeg, sy'n cael ei gefnogi gan nifer arwyddocaol o bobl yn y byd Cymraeg; cyhoeddodd yn helaeth ar y pwnc mewn amryw gyhoeddiadau; bu'n lladmerydd cysonach na neb ond odid i'r galw am ddarparu dysgu cyfrwng-Cymraeg digonol mewn Addysg Uwch. Cafodd y Pwyllgor gyfle mewn da bryd (yng nghyfarfod Ebrill 4) i gymeradwyo'r gwahoddiad, fel bod digon o amser gan aelodau i godi amheuon ynglyn a doethineb gwneud hynny. Byddai unrhyw un a wyddai am ysgrifeniadau Dafydd Glyn Jones yn y maes yma yn disgwyl y byddai ei gyflwyniad yn ddadleuol ac o bosibl yn codi gwrychyn rhai, ond rwy o'r farn y byddai'n ddiwrnod trist iawn ar y Cynulliad ac ar ddemocratiaeth ped ystyrid hynny'n ddadl yn erbyn estyn gwahoddiad i roi tystiolaeth. Roedd cael cynrychiolwyr Bwrdd Cyfrwng-Cymraeg y Brifysgol i'r cyfarfod yn sicrhau cydbwysedd.
2. Awgrymwyd i fi yn breifat bod y cyfarfod ynglyn a dysgu cyfrwng-Cymraeg wedi ymadael a'r patrwm a oedd wedi'i weithredu ar gyfer cyfarfodydd eraill (tyst arbenigol + cynrychiolwyr o AUC). Fy ateb i hyn yw (a) mai'r amser i godi gwrthwynabiad i hyn oedd pan roddwyd gwybod gyntaf i'r Pwyllgor, ar Ebrill 4, am ffurf y cyfarfod (b) nad oedd dysgu cyfrwng-Cymraeg yn un o'r themau yr oedd trefniadau wedi'u gwneud gydag AUC i sefydlu gweithgorau arbennig yn eu cylch (c) ymadawodd dau gyfarfod arall a'r patrwm arbennig yna, sef yr un gyda'r Undebau a'r un i drafod methedigedd.
3. Wedi i Ddafydd Glyn Jones gyflwyno'i dystiolaeth ysgrifenedig – a oedd yn cwmpasu materion ehangach na dysgu cyfrwng-Cymraeg a'r Coleg Ffederal, sef y pynciau y gwahoddwyd Dafydd Glyn Jones i draethu arnyn – byddai wedi bod yn hollol amhriodol i fi sgrinio neu ddewis-a-dethol o blith ei gyflwyniad mewn unrhyw fodd. Awgrymodd y Gweinidog yn y cyfarfod ar Fai 27 y gallai peth felly fod yn briodol a gofynnodd am i ystyriaeth gael ei roi i hynny. Rwy'n anghydweld yn sylfaenol a hi. Byddai unrhyw broses felly yn fy marn i yn gyfystyr a sensoriaeth. Rwy wedi gweld y papur a baratowyd i Banel y Cadeiryddion ar y pwnc hwn, ac rwy'n cydweld yn llwyr a'r hyn a ddywedir ynddo.
4. Pan gyflwynodd Huw Lewis gynnig yn ddirybudd-ymlaen-llaw i'r Pwyllgor ar Fai 17 y dylid llwyr ddiystyru tystiolaeth Dafydd Glyn Jones (yr argraff a gafodd rhai pobl ar y pryd oedd ei fod yn argymell dileu'r dystiolaeth o'r cofnod), gwrthodais roi'r mater i bleidlais ar y pryd. Rwy o'r farn fod fy mhenderfyniad yn hollol gywir. Byddai caniatau pleidlais ar gynnig nad oedd wedi ei gyflwyno ymlaen llaw, ac yr oedd iddo ymhlygiadau mor ddifrifol a phellgyrhaeddol i waith pwyllgorau a'r Cynulliad, yn fy marn i nid yn unig yn annoeth ond yn anghyfrifol.
5. Erbyn i Huw Lewis gyflwyno'i gynnig ar bapur i'r Pwyllgor ar Fai 23 roeddwn wedi cael barn gyfreithiol a ddywedodd, ymysg pethau eraill, y byddai penderfyniad ffurfiol i lwyr ddiystyru tystiolaeth Dafydd Glyn Jones "yn creu cynsail anffodus, gydag ymhlygiadau ehangach ar gyfer gweithredu rol datblygu polisi pwyllgorau'r Cynulliad" ("would set an unfortunate precedent with wider implications for the operation of the policy development role of Assembly committees" ), ac roedd copi o'r cyngor yna wedi'i roi i Huw Lewis. Serch hynny penderfynodd Mr Lewis gyflwyno cynnig i'r union berwyl yna, a hynny heb ei ddangos i fi na'i gylchredeg i aelodau'r Pwyllgor ymlaen llaw. Penderfynais weithredu ar sail Canllawiau'r Llywydd ar gyflwyno Cynigion i Bwyllgorau yn ol Rheol Sefydlog 8.17, a gohirio dadl a phleidlais tan y cyfarfod nesaf er mwyn i'r cynnig gael ei gyflwyno ymlaen llaw a bod cyfle i gyflwyno gwelliannau. Cafodd fy mhenderfyniad ei amau ar y pryd, ac awgrymwyd fy mod yn ymddwyn yn unbeniaethol a bod dyddiad Etholiad Cyffredinol San Steffan yn dylanwadu ar fy mhenderfyniad, ond rwy'n gwbl dawel fy meddwl i fi weithredu'n briodol ac yn gyfrifol.

Cynog Dafis Mehefin 17 2001